*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Sandra Forrest** |
| Pwnc | **Darpariaeth Isafswm Refeniw** |

**PWRPAS YR AWDURDOD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth i ddiwygiad i'r Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/2018, a chytuno ar y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn adolygiad o Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw cyfredol yr Awdurdod Tân, canfuwyd bod modd cael cyfle i wneud arbediad sylweddol drwy newid y dull ar gyfer gwneud y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Cyfrifwyd y byddai'r arbediad blynyddol i'r gyllideb refeniw yn £366k. Os caiff y diwygiad ei gymeradwyo ar gyfer 17/18, gellid cael arbedion o gymharu â chyllideb 17/18. Ceir y manylion yn yr Adroddiad Alldro Amcanol ar yr agenda.

3 Mae'r newid hefyd yn cyflwyno dull mwy teg o ddosrannu'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf.

4 Mae'r wybodaeth dechnegol sy'n gysylltiedig â newid y polisi wedi'i chynnwys yn Atodiad 1, a gofynnir i'r Aelodau fynd ati'n ofalus i ystyried yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad cyffredinol hwn.

5 Cafodd Swyddfa Archwilio Cymru wybod am y newidiadau arfaethedig ar ddiwedd Medi 2017. Maent yn methu â darparu barn yn y cam hwn, ond byddant yn gwneud hynny pan mae'r cyfrifon yn destun archwiliad. Fodd bynnag, mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r newidiadau a gafodd eu gwneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru y mae eu cyfrifon wedi cael eu harchwilio yn dilyn adolygu'r polisi, a hynny heb dynnu sylw at broblemau mewn perthynas â'r newidiadau.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r diwygiadau i'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/18 a'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19:

(i) Newidiadau i'r polisi 2017/18 – o ran gwariant cyfalaf a wnaethpwyd cyn 1 Ebrill 2017, ac unrhyw wariant wedi hynny, y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fydd ad-dalu'r gwariant cyfalaf a wnaethpwyd ar Dir ac Adeiladau gan ddefnyddio'r Dull Oes Ased - llinell syth.

Wedi'i newid o'r canlynol – y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fydd ad-dalu 4% o'r balans sy'n weddill o'r gwariant cyfalaf a wnaethpwyd ar Dir ac Adeiladau (ac eithrio prosiect adeiladu newydd Gorsaf Dân Wrecsam).

(ii) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19 – o ran gwariant cyfalaf a wnaethpwyd cyn 1 Ebrill 2018, ac unrhyw wariant wedi hynny, y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fydd ad-dalu:-

- y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd ar Dir ac Adeiladau gan ddefnyddio llinell syth y Dull Oes Ased.

- Cerbydau, Peiriannau, Cyfarpar a Seilwaith, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar amcangyfrif o oes yr asedau.

- bydd y gwariant ar Orsaf Dân newydd Wrecsam yn cael ei ad-dalu dros oes y les gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (50 mlynedd).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r argymhelliad i newid y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw o leihau'r balans i linell syth yn sicrhau bod y costau'n cael eu gwasgaru'n fwy cyfartal rhwng y trethdalwyr sy'n elwa ar y gwariant cyfalaf. Nid ystyrir bod hyn yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, dim ond fod cenedlaethau'r dyfodol yn talu am yr asedau y maent yn elwa arnynt. |
| Cyllideb | Darparu arbediad sy'n gallu cynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio ariannol yn y presennol ac ar gyfer y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol penodol gan fod yr Awdurdod yn gweithredu mewn modd darbodus. |
| Staffio | Nid oes dim effaith ar faterion staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau. |
| Risgiau | Mae effeithiau newid y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn cael effeithiau tymor hir na ellir eu dad-wneud yn hawdd. |

ATODIAD 1

1. CEFNDIR GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU

1.1 Gwariant cyfalaf yn gyffredinol yw gwariant ar asedau sydd â disgwyliad oes o fwy na blwyddyn, e.e. adeiladau, gwelliannau seilwaith, cerbydau, peiriannau ac ati.

Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o dderbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw, grantiau penodol ar gyfer cynlluniau, a dyled ar ffurf benthyca neu drefniadau ariannu tymor hir eraill megis prydlesu.

Gall benthyca fod naill ai'n:

Fenthyca â chymorth – mae cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw i ymorol am gostau ariannu dyledion refeniw yn gysylltiedig â llog a chostau ad-dalu, neu'n

Fenthyca digymorth (a elwir yn aml yn fenthyca darbodus) – Mae gan awdurdodau ryddid i bennu lefel y benthyca sy'n cael ei ystyried yn fforddiadwy o ran costau ariannu dyledion refeniw heb ddim cymorth gan Lywodraeth Cymru.

I Wasanaethau Tân yng Nghymru, mae pob benthyca'n un digymorth.

1.2 Yr enw ar daliad blynyddol ar y cyfrif refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yw'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (*Minimum Revenue Provision*). Mae'r rheoliadau a ganlyn yn cyfeirio at y taliad hwn:-

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol, o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008, neilltuo peth o'u hadnoddau refeniw fel darpariaeth i ad-dalu dyled.

Mae Rheoliad 22 o Reoliadau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod wneud swm o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw bob blwyddyn y mae'n ystyried ei bod yn "ddarbodus", er nad yw'r Rheoliadau eu hunain yn diffinio beth yw "darpariaeth ddarbodus".

Mae Rheoliad 21(B) o Reoliadau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau a roddir gan y Llywodraeth.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer sefydlu polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Maent yn datgan mai nod gyffredinol darpariaeth ddarbodus yw sicrhau bod y ddyled yn cael ei had-dalu dros gyfnod sy'n cyd-fynd yn rhesymol â'r cyfnod pryd y mae'r gwariant cyfalaf yn rhoi budd, neu yn achos benthyca â chymorth Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd yn rhesymol â'r cyfnod sydd dan sylw ar benderfynu ar y grant hwnnw.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu 4 opsiwn ar gyfer gwneud "darpariaeth ddarbodus", a amlinellir isod, ond maent yn dweud y canlynol yn y sylwebaeth ategol:

*"Yr opsiynau yw'r rhai sy'n debygol o fod y rhai mwyaf perthnasol ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau, ond nid y bwriad yw diystyru dulliau eraill, ar yr amod eu bod yn gwbl gyson â'r ddyletswydd statudol i wneud darpariaeth refeniw ddarbodus. Rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth i'r canllawiau drwy'r amser, ond fe allant, ar ôl gwneud hynny, ystyried bod modd cyfiawnhau dull Darpariaeth Isafswm Refeniw sy'n fwy unigol.*

*Mater i'r Awdurdod yw penderfynu beth sy'n ddarbodus, nid mater i Lywodraeth Cymru yw dweud mewn achosion penodol a yw unrhyw drefniant arfaethedig yn gyson â'r ddyletswydd statudol."*

1.4 Mewn llythyr at yr holl awdurdodau lleol, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad mai mater i bob awdurdod yw penderfynu beth sy'n bolisi "darbodus".

1.5 Opsiynau ar gyfer Darpariaeth Ddarbodus o fewn Canllawiau Llywodraeth Cymru

1.5.1 Opsiwn 1 – Dull Rheoleiddiol

O ran gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan fenthyca â chymorth drwy gyllid yn y Grant Cynnal Refeniw, caiff awdurdodau barhau i ddefnyddio'r fformiwla a bennir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) 2003 (y rheoliadau a oedd yn rhagflaenu Rheoliadau 2008). <u>Nid yw hyn yn berthnasol i Wasanaethau Tân yng Nghymru.</u>

1.5.2 Opsiwn 2 – Y Dull Gofyniad Cyllid Cyfalaf

O ran gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan fenthyca â chymorth drwy gyllid yn y Grant Cynnal Refeniw, mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei gyfrifo fel 4% o'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 1af Ebrill mewn unrhyw flwyddyn.

1.5.3 Opsiwn 3 – Dull Oes Ased

Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio rhandaliadau blynyddol dros amcangyfrif o oes yr ased.

Caiff hwn ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull "llinell syth" neu'r dull "blwydd-dal". I ddangos y gwahaniaeth, fel enghraifft o ased sy'n cael ei brynu am £4 miliwn gydag amcangyfrif o 50 mlynedd o oes ddefnyddiol:

Y dull llinell syth – taliad blynyddol cyfartal i'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw blynyddol cyfartal £4 miliwn / 50 mlynedd = £80,000.

Dull blwydd-dal neu chwyddiant – taliad blynyddol i'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, sy'n cymryd gwerth amser arian ar ffurf chwyddiant i ystyriaeth wrth ymdrin â'r uchod

Blwyddyn 1 = £47k
Blwyddyn 2 = £48k
Blwyddyn 3 = £49k
Blwyddyn 4 = £50k
Blwyddyn 5 = £51k etc.

1.5.4 Opsiwn 4 – Dull Dibrisiant

Neu, gwneir darpariaeth yn unol â'r rheolau safonol ar gyfer cyfrifyddu dibrisiant. Mae'r dull yn debyg i opsiwn 3 uchod.

1.5.5 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio opsiwn 3 neu 4 ar gyfer pob gwariant cyfalaf sydd i gael ei ariannu gan fenthyca digymorth neu ymrwymiadau tymor hir eraill. Ni chaniateir opsiynau 1 a 2 ar gyfer y defnydd hwn oni bai fod modd dangos bod y dulliau hyn yn fwy darbodus.

Y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Cyfredol

1.5.6 Dyma polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw cyfredol yr Awdurdod:

Gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu gan fenthyciad digymorth ar sail Opsiwn 2 – Dull Gofyniad Cyllid Cyfalaf – ar gyfer Tir ac Adeiladau yn unig.

Gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu gan fenthyciad digymorth ar sail Opsiwn 3 – Dull Oes Ased – ar gyfer Cerbydau, Peiriannau, Cyfarpar a Seilwaith.

1.5.7 £33,661,943 yw'r swm o wariant cyfalaf sy'n weddill ac angen ei ad-dalu, fel yr oedd pethau ar 31ain Mawrth 2017.

1.6 Adolygiad o Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw'r Awdurdod

1.6.1 Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod datganiad ar y polisi o wneud Darpariaeth Isafswm Refeniw yn y flwyddyn ariannol honno yn cael ei gymeradwyo ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Bob blwyddyn, mae'r polisi'n cael ei adolygu ac eleni , oherwydd y sefyllfa ariannol gyfredol, ystyriwyd a ellid gwneud arbedion ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw tra hefyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

1.6.2 Cafodd adolygiad o'r polisi ei gynnal gan swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a buon nhw'n ystyried adolygu'r polisi yn yr un modd ag a wnaethpwyd mewn Awdurdodau eraill yng Nghymru.


1.6.4 Adolygwyd y polisi cyfredol ar gyfer benthyca digymorth ar gyfer asedau oes fer, ac ystyriwyd bod y Dull Oes Ased yn briodol ac yn rhoi'r dull mwyaf darbodus felly ni fydd hyn yn cael ei newid.

O ran benthyca digymorth ar Dir ac Adeiladau, cynhaliwyd cymhariaeth o'r opsiynau sydd ar gael gan gynnwys:

4% o falans yn lleihau (opsiwn 2),
llinell syth – ad-daliadau cyfartal (opsiwn 3), a'r
dull blwydd-dal / chwyddiant (opsiwn 3)

1.6.6 4% o'r Dull Balans yn Lleihau
Mae'r dull yn awgrymu y bydd benthyciad yn cael ei ad-dalu dros gyfnod o 25 mlynedd (sef 100% / 4% = 25), ond gan fod y cyfrifiad yn berthnasol i 4% o'r balans sy'n lleihau mae'n cymryd llawer mwy na 25 mlynedd i ad-dalu'r benthyciad yn llawn.

Mae'r graff a'r Tabl 2 isod yn dangos proffil ad-dalu Darpariaeth Isafswm Refeniw yr £17 miliwn o wariant cyfalaf ar Dir ac Adeiladau sy'n weddill ar 31 Mawrth 2017:




Mae Tabl 1 isod yn rhoi gwybodaeth am bum mlynedd gyntaf y dadansoddiad llawn a ddefnyddiwyd yn y graff uchod.

TABL 1

| Blwyddyn | Darpariaeth Isafswm Refeniw blynyddol<br><br>£ miliwn | Gwariant Cyfalaf sy'n Weddill £ miliwn |
|---|---|---|
| 2016/17 | 0.688 | 17.189 |
| 2017/18 | 0.660 | 16.501 |
| 2018/19 | 0.634 | 15.842 |
| 2019/20 | 0.608 | 15.208 |
| 2020/21 | 0.584 | 14.600 |

Ymhen 50 mlynedd, bydd £2.3 miliwn o wariant cyfalaf yn dal yn weddill, ac ymhen 100 mlynedd bydd £302k yn weddill. Byddai'n cymryd 174 mlynedd cyn y byddai'r balans yn is na £20k. Mae hyn yn cefnogi'r farn nad dyma'r opsiwn mwyaf darbodus.

1.6.7 Dull Llinell Syth


Mae’r dull yn cyfrifo taliad blynyddol cyfartal o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw i’r cyfrif refeniw dros amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr ased.

O ran pob gwariant cyfalaf newydd ar Dir ac Adeiladau, bydd y taliad yn seiliedig ar oes yr ased felly bydd yn syml.

O ran gwariant cyfalaf hanesyddol ar Dir ac Adeiladau, gellir rhannu’r gwariant rhwng gwariant ar Dir a gwariant ar Adeiladau. 100 mlynedd yw’r oes brocsi a aseswyd ar gyfer Tir. Oes Adeiladau yw 40 mlynedd, ar sail asesiad gan y Prisiwr o oes ddisgwyliedig Gorsaf Dân. Defnyddiwyd hyn fel procsi ar gyfer oes yr ased gan fod y portffolio eiddo yn cynnwys y math hwn o ased yn bennaf.

£439k fydd y taliad blynyddol yr ad-daliad ar yr £17.2 miliwn o wariant cyfalaf hanesyddol ar Dir ac Adeiladau. Ar ôl 38 mlynedd, bydd balans y gwariant ar Adeiladau wedi cael ei ad-dalu (Cynhaliwyd prisiad 2 flynedd yn gynharach felly oes yr ased yr adeg honno oedd 40 mlynedd).

Mae’r graff isod yn dangos hyn:



1.6.8 Dull Blwydd-dal / Chwyddiant

Mae’r dull yn debyg i’r un llinell syth yn yr ystyr bod y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei godi ar y refeniw dros oes ddefnyddiol yr ased ac yn cael ei had-dalu’n llawn ar ddiwedd yr oes ddefnyddiol. Gosodir cyfradd blwydd-dal am y cyfnod i adlewyrchu bod gwerth arian yn gostwng dros amser oherwydd chwyddiant. Mae hyn yn creu taliad cyson a “gwirioneddol” i’r trethdalwr am ddefnyddio’r ased dros ei oes, ond ar brisiau heddiw mae’n daliad sy’n cynyddu. 2% yw’r gyfradd sy’n cael ei defnyddio’n gyffredin, sef cyfradd darged Banc Lloegr ar gyfer chwyddiant. Gyda’r opsiwn hwn, mae’r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn codi dros amser.

1.7 Casgliadau

1.7.1 Nid yw’r dull blwydd-dal/chwyddiant yn addas o safbwynt cyllideb, a gan fod costau wedi’u pwysoli tuag at ran olaf y cyfnod ad-dalu, bydd cenedlaethau’r dyfodol yn talu mwy am asedau sy’n cael eu defnyddio heddiw. Nid yw hyn yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Felly mae’r dull hwn wedi’i eithrio.

1.7.2 Dan y dull 4% o falans yn lleihau, mae’r costau wedi’u pwysoli tuag at ran gynnar y cyfnod ad-dalu a bydd cenedlaethau’r dyfodol yn dalu i dalu yn y flwyddyn 2190. Nid yw’r dull hwn yn ffordd deg o wasgaru’r costau am ddefnyddio asedau’r Awdurdod. Mae’r dull hwn yn ddarbodus gan fod yr ased yn cael ei had-dalu’n gynt ond ar sail rhannu’r gost nid yw’n gyfartal.

1.7.3 Mae’r dull llinell syth yn cyd-fynd yn nes ag oes asedau’r Awdurdod ac mae’r costau’n cael eu gwasgaru’n fwy cyfartal rhwng y trethdalwyr a fydd yn elwa ar yr asedau. Mae’r dull hwn yn ddarbodus ac fwy teg ar sail rhannu’r gost.

1.7.4 Ar sail y casgliadau uchod, y dull sy’n cael ei ffafrio yw’r dull llinell syth.

1.7.5 Yr argymhelliad yw newid proffil ad-dalu’r balans sy’n weddill o’r gwariant cyfalaf ar Dir ac Adeiladau, sef £17.2 miliwn ar 31 Mawrth 2017, i’r dull llinell syth yn cael ei ad-dalu dros oes yr ased.

1.7.6 Gwariant cyfalaf newydd ar Dir ac Adeiladau wedi’i ariannu â benthyca digymorth a gafwyd o 2017/18 ymlaen i’w ad-dalu dros oes yr ased.

1.7.7 Mae hyn yn golygu newid yn ystod y flwyddyn i’r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw o opsiwn 2, sef y dull gofyniad cyllid cyfalaf, i opsiwn 2 sef y dull oes ased.

2. RHESTR O DDOGFENNAU CEFNDIROL HYGYRCH

2.1 Gwahanol bapurau gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003.

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008.

Canllawiau ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 3. GEIRFA

Gwariant Cyfalaf: Gwariant wrth gaffael asedau anghyfredol neu wariant ymestyn oes neu werth ased sy’n bodoli eisoes.

Gofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR): Mesur o’r gwariant cyfalaf a wnaethpwyd ond sydd heb ei ariannu eto o’r derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf neu ariannu refeniw.

Darpariaeth Isafswm Refeniw: Gwneir taliad i’r refeniw i ad-dalu gwariant cyfalaf sy’n weddill. Rhaid i awdurdod benderfynu ar eu taliad Darpariaeth Isafswm Refeniw darbodus bob blwyddyn, gan ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddir gan y Llywodraeth.

Y Cod Darbodus: Cod ymarfer gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) i danategu gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003 mewn perthynas â dyletswydd awdurdod i benderfynu pa mor fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy ei anghenion buddsoddi cyfalaf.

Gwariant Refeniw: Pob gwariant gan awdurdod na ellir ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf.

Grant Cynnal Refeniw: Yn cael ei dalu i bob awdurdod gan Llywodraeth Cymru fel cyfraniad tuag at gost darparu gwasanaethau.

Benthyca â chymorth heb ei neilltuo, a elwir yn aml yn Fenthyca â Chymorth: Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dyraniad Benthyca â Chymorth i Awdurdodau. Yna, mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys arian i dalu’r costau refeniw sy’n gysylltiedig â’r benthyca â chymorth ar gyfer blynyddoedd i ddod o fewn y Grant Cynnal Refeniw. Yr Awdurdod sy’n penderfynu sut mae’r arian yn cael ei wario. Yng Nghymru, nid oes benthyca â chymorth yn cael ei ddyrannu i’r Gwasanaethau Tân felly ni fydd hyn yn berthnasol.

Benthyca Darbodus a’r Cod Darbodus. Mae awdurdodau’n sefydlu eu polisïau eu hunain ar lefelau derbyniol a’r mathau o fenthyca o ran y lefel gymeradwy o wariant cyfalaf. Prif amcanion y cod yw sicrhau bod y strategaeth a gymeradwywyd yn un ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy.